


Y Pwyllgor Cyllid

# Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2017-2018

Gorffennaf 2017

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Y Pwyllgor Cyllid**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddCyllid**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y Pwyllgor Cyllid

# Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2017-2018

Gorffennaf 2017

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

# Y Pwyllgor Cyllid

Cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 19; swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 18.10 a 18.11; ac ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â Chronfa Gyfunol Cymru.

---

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor:**



**Simon Thomas AC (Cadeirydd)**
Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Neil Hamilton AC**
UKIP Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Mike Hedges AC**
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



**Steffan Lewis AC**
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



**Eluned Morgan AC**
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Nick Ramsay AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Mynwy



**David Rees AC**
Llafur Cymru
Aberafan

---

# Cynnwys


Casgliadau ac Argymhellion ........ 5

01. Trosolwg ........ 6

02. Trafod y gyllideb atodol ........ 8

03. Amrywiad i’r gyllideb ar gyfer Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ........ 15

Atodiad A – Amrywiad i'r gyllideb ar gyfer Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ........ 16

# Casgliadau ac Argymhellion

**Casgliad 1. Er nad yw'r newidiadau yn y gyllideb atodol hon yn arwyddocaol, roedd y Pwyllgor yn cytuno ag Ysgrifennydd y Cabinet fod cyflwyno cyllideb atodol yn ddull priodol ar hyn o bryd ac mae am weld y drefn hon yn parhau i gael ei defnyddio. ........ Tudalen 7**

**Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru, wrth ddatblygu'r fasnachfraint rheilffyrdd newydd, yn sicrhau bod contractau ar gyfer gwella gwasanaethau yn cael eu drafftio'n dynn i osod cyfrifoldeb ar y cwmni i ariannu gwelliannau fel wi-fi. ........ Tudalen 11**

# 01. Trosolwg

**1.** Gosodwyd y Gyllideb Atodol gyntaf ar gyfer 2017-18[1] gan Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol (Ysgrifennydd y Cabinet), ar 27 Mehefin 2017. Yn ogystal, cyflwynwyd nodyn esboniadol[2] a thablau yn dangos y dyraniadau i'r prif grwpiau gwariant (MEG).

**2.** Mae proses y gyllideb yng Nghymru wedi'i nodi yn Rhan 5 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006[3] ac yn Rheolau Sefydlog[4] Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad). Dyma gamau'r broses:

- Cynigion y gyllideb ddrafft: mae'r rhain yn amlinellu cynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru ac yn caniatáu i'r Cynulliad graffu arnynt a'u diwygio.
- Cynnig y gyllideb flynyddol: mae hwn yn ceisio awdurdodiad ffurfiol y Cynulliad ar gyfer defnyddio adnoddau yn ystod y flwyddyn ariannol, yn seiliedig ar y Gyllideb Derfynol;
- Cynigion y gyllideb atodol: mae'r rhain yn ceisio awdurdodiad ar gyfer newidiadau yn ystod y flwyddyn i gynnig y gyllideb flynyddol. Fel arfer, ceir dwy gyllideb atodol bob blwyddyn ariannol, un ym mis Mehefin ac un ym mis Chwefror.

**3.** Mae'r gyllideb atodol hon yn diwygio Cyllideb Derfynol 2017-18, a chyllideb weinyddol yw'r gyllideb atodol yn bennaf. Mae'n cynnwys nifer fach o ddyraniadau o'r cronfeydd wrth gefn, newidiadau rhwng refeniw a chyfalaf, a throsglwyddiadau rhwng portffolios. Mae'n cynnwys addasiadau i floc Cymru i adlewyrchu trosglwyddiadau a symiau canlyniadol a dderbyniwyd yng Nghyllideb Llywodraeth y DU 2017, ac mae hefyd yn cynnwys newidiadau yn rhagolygon y Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn unol â'r diweddariadau a ddarparwyd i Drysorlys Ei Mawrhydi.

**4.** Mae llinell sylfaen yr arian refeniw wedi cynyddu £78.5 miliwn, gan gynnwys £71.3 miliwn mewn symiau canlyniadol a dderbyniwyd o Gyllideb Llywodraeth y DU 2017, trosglwyddiad o £7.2 miliwn o'r Swyddfa Gartref ynghylch y Gordal Iechyd Mewnfudo, a throsglwyddiad o £27,000 o'r Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar gyfer ariannu Amgueddfa Lloyd George yng Ngwynedd. Nid yw llinell sylfaen y refeniw nad yw'n arian wedi newid.

**5.** Mae'r llinell sylfaen cyfalaf wedi cynyddu £11.9 miliwn, o ganlyniad i symiau canlyniadol a dderbyniwyd o Gyllideb Llywodraeth y DU 2017.

**6.** Hefyd bu dau newid o fewn Prif Grŵp Gwariant yr Economi a'r Seilwaith sydd wedi effeithio ar y cronfeydd wrth gefn. Newidiwyd £12.4 miliwn o gyfalaf trafodion ariannol i gyfalaf cyffredinol, a newidiwyd £0.6 miliwn o refeniw cyllidol i gyfalaf.

**7.** Y prif ddyraniadau refeniw yn y gyllideb atodol hon yw £20 miliwn ar gyfer ariannu gofal cymdeithasol;[5] £20 miliwn ar gyfer Bargen Prifddinas-Ranbarth Caerdydd; a £750,000 ar gyfer darparu wi-fi ar drenau ac mewn gorsafoedd.

**8.** Mae un dyraniad cyfalaf yn y gyllideb atodol hon, sef £1.6 miliwn ar gyfer darparu wi-fi ar drenau ac mewn gorsafoedd.

[1] Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2017-18, Mehefin 2017
[2] Llywodraeth Cymru, Nodyn Esboniadol, Cyllideb Atodol Gyntaf 2017-18, Mehefin 2017
[3] Deddf Llywodraeth Cymru 2006
[4] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru
[5] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Diweddariad: Cyllid Gofal Cymdeithasol 2017-18 17 Mai 2017

**9.** Ymddangosodd Ysgrifennydd y Cabinet gerbron y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) ar 5 Gorffennaf 2017. Mae'r adroddiad canlynol yn cyflwyno casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor, sy'n seiliedig ar y dystiolaeth a ddaeth i law.

**10.** Wrth egluro ei resymau dros gyflwyno'r gyllideb atodol hon dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> "... this first supplementary budget is at the most modest end of supplementary budgets, with a relatively small number of matters to report within it. I did have a discussion with officials as to whether or not a supplementary budget at this point in the cycle was the most sensible way of proceeding, given the modest nature of the changes that it reports. But in the end I thought it was better to use the machinery we have and to report it in a way that would allow it to be scrutinised and taken through the Assembly, rather than simply, for example, reporting it in a letter to you."[6]

## Safbwynt y Pwyllgor

**Casgliad 1.** Er nad yw'r newidiadau yn y gyllideb atodol hon yn arwyddocaol, roedd y Pwyllgor yn cytuno ag Ysgrifennydd y Cabinet fod cyflwyno cyllideb atodol yn ddull priodol ar hyn o bryd ac mae am weld y drefn hon yn parhau i gael ei defnyddio.

[6] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 5 Gorffennaf 2017, paragraff 6

# 02. Trafod y gyllideb atodol

### Y newidiadau i gyllid refeniw yn y portffolio Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ac ariannu Gofal Cymdeithasol

**11.** Bu dau ddyraniad refeniw o'r cronfeydd wrth gefn i'r portffolio Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, £20 miliwn ar gyfer ariannu gofal cymdeithasol a £7.2 miliwn ar gyfer y Gordal Iechyd Mewnfudo.

**12.** Mae'r Nodyn Esboniadol[7] i'r gyllideb atodol hefyd yn crybwyll y cafwyd amryw o drosglwyddiadau rhwng camau o fewn Prif Grŵp Gwariant Iechyd, Llesiant a Chwaraeon er mwyn ailflaenoriaethu cyllid ac i ariannu ymrwymiadau penodol.

**13.** Mewn perthynas ag ariannu gofal cymdeithasol, dywedodd Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Mai 2017, y bydd yr £20 miliwn a ddyrannwyd i ofal cymdeithasol yn cael ei wario mewn tair ffordd:

- Bydd £9 miliwn yn cynyddu'r cyllid sydd eisoes ar gael i reoli costau'r gweithlu, a hyrwyddo sefydlogrwydd y farchnad gofal cymdeithasol;
- Bydd £8 miliwn yn cefnogi gwaith i atal plant rhag cael eu derbyn i ofal ac i wella'r canlyniadau i'r rhai sydd mewn gofal; a
- Bydd £3 miliwn yn cael ei ddarparu i awdurdodau lleol i helpu gyda gofal seibiant i ofalwyr.[8]

**14.** Fodd bynnag, er bod £20 miliwn wedi'i ddyrannu i ofal cymdeithasol yn y gyllideb atodol hon, mae trosglwyddiadau allan o Faes Rhaglenni Gwariant (SPA) Gwasanaethau Cymdeithasol i rywle arall yn y Prif Grŵp Gwariant yn golygu bod y cynnydd cyffredinol yn yr SPA rhwng y gyllideb derfynol a'r gyllideb atodol hon mewn gwirionedd yn £18.7 miliwn.

**15.** O ran yr £20 miliwn sy'n cael ei ddyrannu i ofal cymdeithasol, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> "You can see that in the way that Rebecca Evans [Minister for Social Services and Public Health] has decided to use the £20 million—I hope I'm remembering these figures correctly—£9 million of it is going to support the domiciliary care and residential care sector for older people, and to be part of the £10 million that we'd provided as part of the main budget to support wages and other costs in that sector; and £8 million is going to looked-after children, … quite a bit of that money is to try and make sure that outcomes for people who are in the looked-after system already are better in terms of education outcomes, health outcomes and so on. But a significant part of that money is also to prevent the arrival into the care system of children who could go on being looked after by their own families if sufficient preventative services were available to allow that to happen. And then £3 million is for the carer strategy, and, again, that is essentially preventative in nature. We all know Wales has a higher proportion of informal care than other parts of the United Kingdom. People who are carers tend to be older, and in other parts of the United Kingdom, and our ability to

[7] Llywodraeth Cymru, Nodyn Esboniadol Cyllideb Atodol Gyntaf 2017-18, Mehefin 2017
[8] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Diweddariad Cyllid Gofal Cymdeithasol 2017-18 17 Mai 2017

support those people in doing the work that they do is an investment in avoiding the cost that would otherwise fall to formal services."[9]

## Safbwynt y Pwyllgor

**16.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r trosglwyddiadau o fewn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, ond mae diffyg manylder yn y Nodyn Esboniadol[10] yn golygu nad yw'n bosibl deall yn union beth yw diben y newidiadau hyn. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn falch o nodi y bydd yr arian ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn cael ei ddosbarthu i awdurdodau lleol yn ôl eu hanghenion yn seiliedig ar elfen gwasanaethau cymdeithasol personol y Setliad Llywodraeth Leol, yn hytrach nag anghenion yr awdurdodau a bennir gan y setliad cyffredinol.

### Lefelau benthyca Llywodraeth Cymru

**17.** Mae'r gyllideb atodol hon yn tynnu sylw at y ffaith bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu benthyca £20 miliwn ar gyfer hawliau benthyg cynnar i'r M4, os bydd angen yn 2017-18; nid yw'r swm hwn wedi newid ers y gyllideb ddrafft. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet mai dim ond os na ellir talu am y costau gan gyfalaf confensiynol ym Mhrif Grŵp Gwariant yr Economi a Seilwaith y byddai'r benthyciad hwn yn digwydd.

**18.** Mewn datganiad llafar ar Gylchffordd Cymru ar 27 Mehefin 2017 dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith fel a ganlyn:

.

"Mae diwydrwydd dyladwy helaeth a manwl gan arbenigwyr allanol a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru wedi dangos, oherwydd y ffordd y mae'r cytundeb wedi ei strwythuro, y byddai'r cynnig presennol yn gweld Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo mwy na 50 y cant o'r risg. Mae hynny oherwydd y byddai'r elfen warant o £210 miliwn yn cario risg uwch na rhannau eraill y pecyn ariannol.

O ganlyniad, yn dilyn trafodaethau â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a Thrysorlys Ei Mawrhydi yn ystod y broses diwydrwydd dyladwy, asesir bod risg sylweddol iawn y byddai dyled lawn £373 miliwn prosiect cyfan Cylchdaith Cymru yn cael ei dosbarthu fel gwariant cyfalaf Llywodraeth Cymru.

Dros y tair blynedd nesaf, byddai hyn yn cael yr un effaith ar gyllidebau Llywodraeth Cymru ag y byddem eisoes wedi gwario'r arian, a byddai'n cyfyngu'n sylweddola r ein gallu i gyflawni prosiectau ar hyn o bryd ac i'r dyfodol i wella seilwaith, tai ysbytai neu ysgolion Cymru.

Penderfynodd y Cabinet, gan hynny, heddiw fod dylanwad posibl y cynnig presennol ger eu bron ar gyllid cyhoeddus yn rhy fawr, ac o'r herwydd ni allwn gynnig y warant ariannol y gofynnwyd amdani ar gyfer y cynnig hwn."[11]

**19.** Nododd Ysgrifennydd y Cabinet na fyddai'r penderfyniad a wnaed â chysylltiad uniongyrchol ag agwedd Llywodraeth Cymru tuag at fenthyca, ond nad yw'r cyfalaf sydd ar gael i Lywodraeth Cymru yn ddigonol i ateb y galw brys am fuddsoddiad cyfalaf yng Nghymru. Cytunodd i roi manylion

[9] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion Drafft, 5 Gorffennaf 2017, paragraff 10
[10] Llywodraeth Cymru, Nodyn Esboniadol, Cyllideb Atodol Gyntaf 2017-18, Mehefin 2017
[11] Llywodraeth Cymru Datganiad Llafar - Cylchffordd Cymru, 27 Mehefin 2017

i'r Pwyllgor am sut yr oedd Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, Trysorlys EM ac Eurostat i ddatblygu ei hagwedd tuag at ariannu buddsoddiad cyfalaf drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol.

## Safbwynt y Pwyllgor

**20.** Mae'r Pwyllgor yn nodi eglurhad Ysgrifennydd y Cabinet na fydd y penderfyniad a wnaed gan Lywodraeth Cymru i beidio ariannu Cylchffordd Cymru yn cael dim effaith ar ei agwedd tuag at fenthyca yn y dyfodol.

**21.** Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn mynd ar drywydd y ffordd y gall unrhyw benderfyniadau allanol tebyg i ailddosbarthu effeithio ar flaenoriaethu gwariant cyfalaf a chynlluniau benthyca yn y dyfodol, er enghraifft: gwarantau dyled; dyled cymdeithasau tai; neu fodelau buddsoddi arloesol yn y dyfodol fel gwariant cyfalaf. Fel rhan o'r gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft yn y dyfodol, bydd y Pwyllgor yn edrych ar lefel gyffredinol benthyca cyfalaf a dyled gan gynnwys y symiau a amcangyfrifir sy'n ddyledus mewn prifswm a llog, a'r cyfnod y mae'n rhaid i'r symiau gael eu had-dalu.

### Yr Economi a'r Seilwaith

**22.** Rhoddwyd dyraniadau ychwanegol i Brif Grwp Gwariant yr Economi a Seilwaith, sef £750,000 o refeniw a £1.6 miliwn o gyfalaf ar gyfer darparu wi-fi ar drenau ac mewn gorsafoedd. Mae adroddiad[12] ar benderfyniad a gyhoeddwyd ym mis Mai 2016 yn dangos y bydd hyn ar wasanaethau Trenau Arriva Cymru, ac y bydd y gorsafoedd prysuraf yn cael blaenoriaeth.

**23.** Hefyd, trosglwyddwyd £18.8 miliwn o Brif Grŵp Gwariant Addysg i adlewyrchu'r ffaith bod y cyfrifoldeb am Gyrfa Cymru wedi symud oddi wrth Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes i'r Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth.

**24.** Hefyd bu dau newid o fewn y Prif Grŵp Gwariant sydd wedi effeithio ar y cronfeydd wrth gefn. Newidiwyd £12.4 miliwn o gyfalaf trafodion ariannol i gyfalaf cyffredinol, a newidiwyd £0.6 miliwn o refeniw cyllidol i gyfalaf.

**25.** Wrth graffu ar Ail Gyllideb Atodol 2016-17 ym mis Chwefror 2017, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol fel a ganlyn mewn perthynas â'r diwydiant dur:

> "On capital reserves, the position is slightly different in this budget, because you will remember that we had anticipated providing a significant amount of help to Tata during this financial year when the crisis in the steel industry broke at the very beginning of the calendar year 2016. Now, in the event, that money has not been drawn down in the current year, and we have an agreement with the Treasury—which has been a constructive discussion with them, let me say; I've been critical of them a moment ago, but we had a constructive discussion with the Treasury about allowing us to carry forward a much higher level of capital carry-forward into next year than would normally be the case. That is specifically in order to allow us to continue to provide help to the steel industry, which will now be drawn down next year rather than this year."[13]

[12] Llywodraeth Cymru, Adroddiad ar Benderfyniad: Darparu Wi-Fi am ddim ar Drenau a Gorsafoedd Trenau Arriva Cymru, 12 Mai 2017

[13] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 16 Chwefror 2017, paragraff 24

**26.** Mewn perthynas â darparu wi-fi ar drenau dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> "I wish, as Finance Minister that the way that the current franchise was structured placed greater obligations on companies to invest their own profits in improving the services that they provide. But they have a contract, it is structured in a particular way, and if there's no obligation on them to invest in particular things then, sometimes, the public purse has to decide whether or not something is of a sufficient priority that we would step in and provide it. You know, it's a modest investment in the overall scheme of Welsh Government's budget…"[14]

## Safbwynt y Pwyllgor

**27.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r ddarpariaeth ar gyfer wi-fi ar drenau ac mewn gorsafoedd, ac yn cefnogi'r buddsoddiad pwysig hwn. Mae'n cytuno â'r ymatebwyr i waith y Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yn y maes[15] hwn mai cysylltedd â gwasanaethau wi-fi yw un o'r blaenoriaethau ar gyfer trenau o dan y fasnachfraint newydd. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn siomedig nad yw'r math hwn o welliant i isadeiledd yn gyfrifoldeb i Drenau Arriva o dan y fasnachfraint bresennol. Dylai'r fasnachfraint gynnwys darpariaeth i sicrhau bod cyfran o'r elw yn cael ei ail-fuddsoddi mewn gwelliannau i wasanaethau, yn hytrach na'r math hwn o welliant sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru, wrth ddatblygu'r fasnachfraint rheilffyrdd newydd, yn sicrhau bod contractau ar gyfer gwella gwasanaethau yn cael eu drafftio'n dynn i osod cyfrifoldeb ar y cwmni i ariannu gwelliannau fel wi-fi.


### Cyllid y GIG

**28.** Cyfrifon blynyddol cyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru ar gyfer 2016-17 yw'r adroddiadau cyntaf ar berfformiad yn erbyn y ddyletswydd ariannol statudol gyntaf a gyflwynwyd yn sgil Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 (Deddf Cyllid y GIG). Newidiodd hyn y gofyniad ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru o'r angen iddynt adennill costau ym mhob blwyddyn ariannol i'r angen i wneud hyn dros gyfnodau treigl o dair blynedd.

**29.** Roedd Deddf Cyllid y GIG yn rhagweld y byddai'r newid hwn yn y gofyniad yn[16] rhoi'r hyblygrwydd sydd ei angen ar fyrddau iechyd lleol yng Nghymru i alluogi gwasanaeth mwy hirdymor, i gynllunio'r gweithlu a'r sefyllfa ariannol a helpu i sicrhau bod y broses o drawsnewid gwasanaethau gofal iechyd yn un gynaliadwy.

**30.** Roedd y sefyllfa gyfanredol ar gyfer yr holl fyrddau iechyd lleol am y cyfnod o dair blynedd hyd at 2016-17 yn orwariant net o £253 miliwn. Dangosir isod y sefyllfa a adroddwyd yn erbyn y terfyn gwariant refeniw ar gyfer pob Bwrdd Iechyd Lleol:

[14] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion Drafft, 5 Gorffennaf 2017, paragraff 89
[15] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Ar y trywydd iawn? Masnachfraint y Rheilffyrdd a Metro De Cymru
[16] Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru), Memorandwm Esboniadol, Medi 2013




**31.** Mewn datganiad ysgrifenedig ar 9 Mehefin 2017, nododd Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, sut yr oedd Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r pryderon o ran perfformiad ariannol yn y pedwar bwrdd iechyd lleol a nododd orwariant yn y cyfnod o dair blynedd o 2014-15 i 2016-17. Roedd hyn yn cynnwys monitro eu perfformiad ariannol a chynnal adolygiadau llywodraethu ariannol. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon:

> "Daeth yr adolygiadau hyn i ben yn ddiweddar, a byddwn yn ystyried y gwersi i'w dysgu ac unrhyw gamau gweithredu dilynol sydd eu hangen ddechrau'r flwyddyn ariannol newydd hon... Mae cymorth ariannol ychwanegol yn parhau i gael ei roi yn ôl yr angen i'r holl fyrddau sydd mewn diffyg ariannol i'w galluogi i gyflawni eu hymrwymiadau arian cyffredinol gan gynnwys gwariant y gyflogres. Mae modd ad-dalu'r cymorth ariannol hwn yn ystod blynyddoedd ariannol y dyfodol pan fo'n briodol, a chaiff cynlluniau gwell eu datblygu a'u cymeradwyo o dan y Ddeddf er mwyn ad-dalu'r diffygion ariannol."[17]

**32.** Mae'r rhagolygon cynnar o bedwar bwrdd iechyd lleol yn awgrymu eu bod yn rhagweld gorwariant yn 2017-18,gyda Hywel Dda yn rhag weld gorwariant o £59 miliwn, Abertawe Bro Morgannwg, yn disgwyl gorwario £36 miliwn, Betsi Cadwaladr yn rhagweld gorwariant o £26 miliwn, ac Aneurin Bevan yn disgwyl gorwario £15 miliwn. Bydd y rhagolygon ar gyfer y Byrddau Iechyd Lleol eraill yn cael eu cyhoeddi pan fyddant yn cynnal eu cyfarfodydd Bwrdd ym mis Gorffennaf 2017.

**33.** Mewn perthynas ag ariannu Byrddau Iechyd Lleol dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> "This Government is committed to filling the Nuffield gap, as it's called, in every year of this Assembly term. That's why there's a £240 million uplift in the

[17] Llywodraeth Cymru. Datganiad Ysgrifenedig - Perfformiad Ariannol GIG 2016-17, 9 Mehefin, 2017

> health budget for 2017-18. The management of that is for the Cabinet Secretary with that responsibility. I know that he has held a significant sum of that £240 million back for him to manage the demands that are there in the health service. I know, because he gave evidence to the Health, Social Care and Sport Committee last week … I think he said to that committee that where Betsi Cadwaladr University Local Health Board is concerned, the special measures are having the effect of stabilising the overspend. So, that board was previously reporting and getting them under control with the new team there. But in Hywel Dda Local Health Board, he has set in motion a zero-based budgeting exercise, which is due to report later in the summer. And, Chair, this is part of the conversation we had when I was last in front of this committee on that matter, where I said to you that I thought that the Health Secretary was interested in trying to identify whether there are costs that are beyond the control of the health board."[18]

**34.** Hefyd, amlygodd Ysgrifennydd y Cabinet rôl Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) o ran rhoi goleuni ar gynllunio ariannol, cynllunio'r gweithlu a gwasanaethau, gan ddatgan:

> "It has allowed the majority of health bodies in Wales to be able to plan their budgets on a better basis. Previously we had the annual rush to try and find ways of spending money as the end of the year came. In places like Cwm Taf and Aneurin Bevan, and in the Welsh ambulance trust, for example, I think you can very clearly see that the ability to plan over a three-year horizon has allowed them to make better decisions and to live within their means. And it has had the effect, as you have seen, of probably exposing those parts of the health service where either that planning capacity has not been sufficient or where, as may be in the case of Hywel Dda, it exposes the fact that there are factors at play that would defeat even the best planning to be able to accommodate."[19]

**35.** Mewn perthynas ag ad-dalu arian gan Fyrddau Iechyd Lleol, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> "… there's no automatic assumption that money provided will be repaid. It's a case-by-case decision that the Cabinet Secretary has to make. Then that does become part of the dialogue that I have with him as to whether or not there is money that he's then able to retain and reuse, or whether it's money that comes back to the centre. I meet monthly with the Cabinet Secretary for health, as I used to meet, as the Minister for health, with the previous finance Minister. Given the proportion of the overall budget that that MEG has at its disposal, his ability to manage that has a material impact on my ability to manage the Welsh Government's budget in the round."[20]

## Safbwynt y Pwyllgor

**36.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cymorth ariannol ychwanegol ar gyfer rhai Byrddau Iechyd Lleol i'w galluogi i gwrdd â'u gofynion ariannol a bod ad-dalu

[18] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion Drafft, 5 Gorffennaf 2017, paragraff 17
[19] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion Drafft, 5 Gorffennaf 2017, paragraff 30
[20] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion Drafft, 5 Gorffennaf 2017, paragraff 22

gorwariant eto i'w gytuno.  Mae'r Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd mynd ar drywydd yr effaith y mae Ddeddf Cyllid y GIG wedi ei chael, o ran nodi gwelliannau i gynllunio ariannol, cynllunio gwasanaethau a’r gweithlu, cynaliadwyedd gwasanaethau yn y dyfodol a’r gwaith o i fynd i'r afael â sicrhau a yw'r dyraniadau rhwng Byrddau Iechyd Lleol yn adlewyrchu anghenion yn gywir.  Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar hyn o bryd yn ystyried gweithredu Deddf Cyllid y GIG yn sgil adroddiad[21] Archwilydd Cyffredinol Cymru ar y pwnc, a bydd y Cadeirydd yn cysylltu â'r Pwyllgor polisi perthnasol er mwyn sicrhau bod y mater hwn yn cael ei ystyried fel rhan o waith craffu ar y gyllideb ddrafft.

[21] Swyddfa Archwilio Cymru, Gweithredu'r Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, Gorffennaf 2017

# 03. Amrywiad i'r gyllideb ar gyfer Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

**37.** Ar 7 Mehefin 2017 darparodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru femorandwm esboniadol i'r Pwyllgor, fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 20.36,[22] yn egluro'r newidiadau yn ei gyllideb.

**38.** Roedd y memorandwm esboniadol yn darparu manylion yn ymwneud â:

- Cyllid diffyg pensiwn;
- Costau cyfreithiol; ac
- Incwm.

**39.** Mae copi o'r memorandwm esboniadol ar gael yn Atodiad A.

## Safbwynt y Pwyllgor

**40.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon â'r amrywiad arfaethedig i'r gyllideb ar gyfer Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

---

[22] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC)

### Cyllideb Atodol 1af 2017-18

### Nodyn i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid

#### Cyllid Diffyg Pensiwn

Roedd y gyllideb gymeradwy ar gyfer 2017-18 yn cynnwys £292k i dalu am y diffyg hirhoedlog yng Nghynllun Pensiwn Caerdydd a'r Fro. Yn dilyn adolygiad dair gwaith y flwyddyn a thrafodaethau gyda rheolwr pensiynau ac actwari’r cynllun, cytunwyd nad yw elfen OGCC o'r cynllun mewn diffyg mwyach. Nid oes angen y cyllid o £292k mwyach ac mae’n cael ei ddychwelyd drwy gyfrwng y gyllideb atodol hon.

#### Costau Cyfreithiol

Mae darpariaeth o £42k wedi cael ei gwneud yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2016/17 mewn perthynas ag achos cyfreithiol cyfredol a pharhaus. Nid oes cyllid arian parod yng nghyllideb 2017/18 i dalu costau’r achos hwn.

#### Incwm

Mae incwm ychwanegol o £16k wedi cael ei gytuno gyda Chymdeithas yr Ombwdsmon mewn perthynas â staff ar secondiad. Nid oes unrhyw effaith net ar adnoddau ac arian parod.

#### Crynodeb

Cyllid ariannol net o £250k i’w ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru heb unrhyw effaith ar adnoddau.

## Cyllideb ddiwygiedig ar gyfer 2017-18

## Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

| Cyllideb Atodol 2017/18 | Cyllideb Ddiwygiedig 2017/18 | Cyllideb Wreiddiol 2017/18 | Newid |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol Cyfalaf** | 25 | 25 | 0 |
| **Terfyn Gwariant Adrannol Refeniw Ariannol** | | | |
| Cyflogau a chostau cysylltiedig | 2,950 | 2,934 | 16 |
| Costau cysylltiedig â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | 0 | 292 | -292 |
| | **2,950** | **3,226** | **-276** |
| Eiddo | 416 | 416 | 0 |
| Systemau cyfrifiadurol a chefnogaeth | 191 | 191 | 0 |
| Costau swyddfa | 130 | 130 | 0 |
| Ffioedd cyfreithiol a chynghori | 294 | 294 | 0 |
| Cyfathrebu | 78 | 78 | 0 |
| Hyfforddi a recriwtio | 30 | 30 | 0 |
| Teithio a chynhaliaeth | 31 | 31 | 0 |
| Ffi archwilio | 20 | 20 | 0 |
| **Is-gyfanswm** | **4,140** | **4,416** | **-276** |
| Incwm | -17 | -1 | -16 |
| **Cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol Refeniw Ariannol** | **4,123** | **4,415** | **-292** |
| **Terfyn Gwariant Adrannol heb fod yn arian parod** | | | |
| Dibrisiant | 80 | 80 | 0 |
| **Terfyn Gwariant Adrannol Refeniw (**B+C) | **4,203** | **4,495** | **-292** |
| **Cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol** (A+B+C) | **4,228** | **4,520** | **-292** |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | | | |
| Symudiad ar Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | 0 | -292 | 292 |
| Symudiad darpariaethau | 20 | 20 | 0 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | **20** | **-272** | **292** |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | | | |
| A+B+C+D | **4,248** | **4,248** | **0** |
| **Yr Adnoddau Gofynnol** | **4,248** | **4,248** | **0** |
| Dibrisiant | -80 | -80 | 0 |
| Newid mewn Darpariaethau | -20 | -20 | 0 |
| Defnyddio Darpariaethau - Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | 0 | 292 | -292 |
| Defnyddio Darpariaethau - costau cyfreithiol | 42 | 0 | 42 |
| Symudiadau eraill mewn Cyfalaf Gweithio | 20 | 20 | 0 |
| **Gofyniad Arian Parod Net** | **4,210** | **4,460** | **-250** |